

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

23 Ionawr 2026

Annwyl Mark

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cyllid (Rhif 2)

Diolch i chi am ddarparu tystiolaeth mewn perthynas â'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2) (y Bil) fel rhan o sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2026-27 ar 21 Ionawr.

Er ein bod yn cydnabod y gallai'r gallu i osod cyfraddau gwahanol ar gyfer treth incwm eiddo yng Nghymru, fel y darperir gan y Bil, gynhyrchu symiau cymharol fach yn unig, rydym yn cytuno bod y pŵer yn werthfawr serch hynny ac yn cydnabod datganoli yn briodol.

Nodwn, o dan Gymal 8(2) o'r Bil, y byddai'r ddarpariaeth sy'n galluogi'r Senedd i bennu cyfraddau treth incwm eiddo Cymru ar wahân yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Drysorlys EF drwy reoliadau, gyda'r flwyddyn dreth 2027-28 yn bwynt cynharaf y gellid arfer y pŵer. Yn ein trafodaeth, fe wnaethom ystyried sut y byddai angen i weithdrefnau'r Senedd newid i ddarparu ar gyfer pleidlais ar gyfraddau treth incwm eiddo Cymru, a sut y byddai'n gweithredu ochr yn ochr â'r penderfyniad ar y cyfraddau treth incwm blyneddol yng Nghymru ar gyfer y prif gyfraddau. Credwn y bydd angen i Bwyllgor Busnes y Senedd drafod yr ystyriaethau gweithdrefnol ar gyfer arfer y pŵer hwn, gan gynnwys newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, maes o law.

Trafodwyd hefyd benderfyniadau Llywodraeth y DU i newid y ffordd y mae incwm eiddo yn cael ei drin wrth gyfrifo atebolrwydd o ran y dreth incwm, ac i gyflwyno cyfraddau treth uwch ar incwm eiddo. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro sut y bydd datganoli pwerau i amrywio treth incwm eiddo yn effeithio ar y rhagolygon refeniw wedi'u gwahanu rhwng CTIC a threth incwm eiddo datganoledig yn 2027-28, gan gynnwys sut y mae'r newid polisi yn y DU wedi dylanwadu ar hyn. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech rannu unrhyw asesiad cychwynnol a wnaed gennych o effaith bosibl y polisiau hyn ar ymddygiad, er enghraifft ysgogi ymgorffori fel cwmnïau cyfyngedig neu mewn perthynas â landlordiaid sydd â chod treth yng Nghymru yn ennill incwm yn Lloegr, ac i'r gwrthwyneb.

Yn olaf, edrychwn ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am y mecanweithiau a ddefnyddir i weithredu'r Gordal Treth Gyngor Gwerth Uchel (y "dreth plastai") yn Lloegr o 2028 i'r rhan fwyaf o eiddo preswyl sydd â gwerth o fwy na £2 filiwn. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad ynghylch unrhyw bwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i gyflwyno treth, ardoll neu ordal er mwyn gweithredu polisi tebyg yng Nghymru.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

